

Cylchlythyr | Circular

Cynlluniau Bwrsariaeth Graddau Meistr Ôl-radd a Addysgir 2023/24

Dyddiad: 07 Gorffennaf 2023
Cyfeirnod: W23/16HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Penaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn
uniongyrchol yng Nghymru
Ymateb erbyn: Ymateb, os oes angen, erbyn **31 Gorffennaf 2023** i
hestats@hefcw.ac.uk
Cyswllt: Enw: Nicola Hunt
Ffôn: 029 2085 9735
E-bost: nicola.hunt@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu manylion cynlluniau bwrsariaeth graddau Meistr ôl-radd a addysgir (PGT) CCAUC ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24 a dyraniadau cyllid. Dyrennir cyfanswm o £3.87m.

Os oes arnoch angen y ddogfen hon
mewn fformat hygyrch arall, anfonwch
neges e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu manylion cynlluniau bwrsariaeth graddau Meistr ôl-radd a addysgir (PGT) CCAUC ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24 a dyraniadau cyllid.
2. Mae bwrsariaethau ar gael i fyfyrwyr Meistr ôl-radd a addysgir mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach cymwys¹ a fydd yn astudio pynciau sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg a meddygaeth, a adwaenir hefyd fel pynciau STEMM, a/neu a fydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu sy'n 60 oed neu'n hŷn, yng Nghymru, ym mlwyddyn academiaidd 2023/24.
3. Ar 8 Medi 2022, daeth y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn amlinellu trefniadau i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) newydd, a fydd yn disodli CCAUC, ac a fydd yn gyfrifol am reoleiddio a chyllido'r rhan fwyaf o ddarpariaeth ôl-16 yng Nghymru sydd o fewn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd y CADY yn weithredol, ac y bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu, erbyn mis Ebrill 2024. Rydym wedi cadarnhau wrth Lywodraeth Cymru ein bod yn bwrw ymlaen ag agweddau ar ein gwaith sy'n hollbwysig yn ein tyb ni ar gyfer pontio'n esmwyth ac effeithiol i'r CADY. Fodd bynnag, gan bod cynlluniau bwrsariaeth graddau Meistr ôl-radd a addysgir yn elfen wedi'i chlustnodi o gyllideb CCAUC sy'n ddibynnol ar gadarnhad blynyddol, nid ydym yn gallu cadarnhau ar yr adeg hon a fydd y cyllid ar gael i'w ddyrannu yn y dyfodol. Ym mharagraff 20, rydym yn dynodi ein dealltwriaeth ni am gyllid ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau, ond ni ddylai sefydliadau dybio y bydd y cynlluniau ar gael yn y dyfodol.

Manylion cynlluniau bwrsariaeth 2023/24

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi [cadarnhau](#) y bydd y cynlluniau bwrsariaeth graddau Meistr ôl-radd a addysgir a gyflwynwyd ym mlwyddyn academiaidd 2019/20 yn parhau ym mlwyddyn academiaidd 2023/24.
5. Yn 2023/24, byddwn yn darparu cyllid i sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach cymwys trwy ein tri chynllun bwrsariaeth graddau Meistr presennol ar gyfer myfyrwyr ôl-radd a addysgir sy'n gymwys: ar gyfer myfyrwyr ôl-radd a addysgir sy'n gwneud gradd Meistr trwy gyfrwng y Gymraeg; ar gyfer myfyrwyr ôl-radd a addysgir sy'n astudio gradd Meistr mewn pwnc STEMM; ac ar gyfer myfyrwyr graddau Meistr ôl-radd a addysgir sy'n 60 oed neu'n hŷn. Mae'n bosibl i fyfyrwr fod yn cael pob un o'r tair bwrsariaeth.
6. Mae'r bwrsariaethau'n berthnasol i'r rhai sy'n astudio naill ai ar sail amser llawn neu ar sail ran-amser ac fe drefnir eu bod ar gael i fyfyrwyr, trwy sefydliadau, i gyfrannu at gostau sy'n gysylltiedig â'u rhaglenni astudio. Ym mhob achos,

¹ Dim ond sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach sy'n cyd-fynd â'r diffiniad yn y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (1992) sy'n gymwys ar gyfer y cynlluniau hyn. Efallai na fydd darparwyr addysg uwch eraill yng Nghymru sydd naill ai'n cael eu rheoleiddio neu y mae eu cyrsiau wedi'u dynodi'n benodol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn cyd-fynd â'r diffiniad o sefydliad addysg uwch neu addysg bellach.

dyrennir y bwrsariaethau ar y ddealltwriaeth bod newydd-ddyfodiaid unigol ar gyfer 2023/24 yn cael uchafswm o un fwrariaeth o bob cynllun yn ystod eu cyfnod yn astudio.

Dull o ddyrannu'r cyllid

7. Byddwn yn dyrannu cyllid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24 i sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru yn gymesur â niferoedd amcangyfrifedig eu myfyrwyr Meistr ôl-radd ym mlwyddyn academiaidd 2023/24 sy'n gwneud y pynciau STEMM perthnasol, sy'n cymryd 40 neu fwy o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n 60 oed neu'n hŷn.
8. Mae niferoedd amcangyfrifedig y myfyrwyr graddau Meistr ôl-radd a addysgir ym mlwyddyn academiaidd 2023/24 yn seiliedig ar gyfran y newydd-ddyfodiaid ôl-radd sy'n fyfyrwyr graddau Meistr ôl-radd a addysgir, a gymerwyd o gofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), a nifer y newydd-ddyfodiaid ôl-radd a ragwelir ym mlwyddyn academiaidd 2023/24 a gymerwyd o'r rhagolygon o niferoedd myfyrwyr a ddarparwyd ar ein cyfer gan ddarparwyr ym mis Gorffennaf 2022. Fel yn 2022/23, yn yr echdyniad data o gofnod myfyrwyr HESA rydym wedi defnyddio myfyrwyr Gwyddelig cymwys fel dirprwy ar gyfer myfyrwyr cymwys o'r UE, o ystyried na fydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr o'r UE nad ydynt yn Wyddelod sy'n dechrau yn 2023/24 yn gymwys mwyach ar gyfer y cynlluniau. Rydym hefyd yn cynnwys myfyrwyr o Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw yn y cyfrifiadau gan eu bod hwy bellach yn cael eu hystyried yn fyfyrwyr cartref mewn trefniadau cyllid myfyrwyr, a'u bod felly'n cael eu trin yn yr un ffordd â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru at ddibenion y bwrsariaethau hyn.
9. Mae'r data a echdynwyd i gyfrifo'r dyraniadau wedi cael ei ddilysu gan sefydliadau. Caiff dyraniadau, yn seiliedig ar ddata a ddilyswyd, eu cynnwys yn **Atodiad A**. Bydd unrhyw gyllid nad yw wedi cael ei wario ar fwrariaethau fel a amlinellir yn y cylchlythyr hwn yn cael ei adfer.

Bwrsariaethau graddau Meistr ôl-radd a addysgir a gyfer STEMM a Chyfrwng Cymraeg

10. Mae'r modd yr ydym yn dyrannu cyllid yn seiliedig ar £2k y myfyriwr gradd Meistr ôl-radd a addysgir sy'n gwneud pynciau STEMM ac £1k y myfyriwr gradd Meistr ôl-radd a addysgir sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Ein disgwyliad ni yw y bydd bwrsariaethau'n cael eu talu i fyfyrwyr cymwys ar y sail hon.
11. Mae cyllid yn seiliedig ar nifer amcangyfrifedig o fyfyrwyr cymwys a ddilyswyd gan bob sefydliad. Os oes diffyg am nad yw'r amcangyfrifon yn gywir, y sefydliad sydd i benderfynu sut y bydd hyn yn cael ei reoli i sicrhau nad yw myfyrwyr cymwys yn cael eu rhoi dan anfantais.

Bwrsariaethau graddau Meistr ôl-radd a addysgir ar gyfer myfyrwyr sy'n 60 oed neu'n hŷn

12. Mae'r modd yr ydym yn dyrannu cyllid yn seiliedig ar £4k y myfyriwr gradd Meistr ôl-radd a addysgir sy'n 60 oed neu'n hŷn. Ein disgwyliad ni yw y bydd bwrsariaethau'n cael eu talu i fyfyrwyr cymwys ar y sail hon.
13. Bydd disgwyl i sefydliadau ddyfarnu bwrsariaethau i'r holl fyfyrwyr cymwys sy'n ymgeisio. Lle mae nifer gwirioneddol y dechreuwyr sy'n gymwys ym mlwyddyn academaidd 2023/24 sy'n ymgeisio am fwrsariaeth yn fwy na'r nifer a amcangyfrifwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddyrannu cyllid, mae disgwyl o hyd i sefydliadau ddarparu bwrsariaethau. Lle mae hyn yn digwydd, bydd cyllid pellach yn cael ei ddyrannu i sefydliadau ar gyfer y myfyrwyr ychwanegol i sicrhau eu bod yn gallu darparu'r holl fwrsariaethau angenrheidiol yn ôl y gyfradd o £4k y myfyriwr tra pery eu cwrs. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy ymarfer monitro ar ddechrau blwyddyn academaidd 2023/24 lle byddwn yn gofyn am wybodaeth i ddynodi pa un a oes diffyg.
14. Gofynnir i sefydliadau hysbysu CCAUC os ydynt yn meddwl y bydd angen cyllid ychwanegol arnynt ym mlwyddyn academaidd 2022/23 i ddarparu ar gyfer recriwtio y tu hwnt i'w niferoedd dyranedig o fwrsariaethau ar gyfer myfyrwyr sy'n 60 oed neu'n hŷn ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Dylid gwneud hyn trwy anfon neges e-bost i hestats@hefcw.ac.uk erbyn **31 Gorffennaf 2023**. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i asesu a oes angen cyllid pellach ar gyfer y cynllun yng ngweddill blwyddyn academaidd 2022/23. Byddwn yn defnyddio data monitro diwedd blwyddyn i oleuo unrhyw addasiadau i ddyraniadau'r sefydliadau unigol a gynhwyswyd gennym yng nghylchlythyr [W22/13HE](#) ac felly ni fyddwn yn gwneud addasiadau yn ystod y flwyddyn i sefydliadau unigol yn seiliedig dim ond ar yr wybodaeth a gyflwynwyd ar y cam hwn.

Dyrannu'n fewnol gan sefydliadau

15. Trwy'r cynlluniau a amlinellir uchod, mae'n bosibl i fyfyriwr gael pob un o'r tair bwrsariaeth, h.y. os yw'n astudio pwnc STEM trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn 60 oed neu'n hŷn, gall gael hyd at £7k o fwrsariaethau. Byddem yn disgwyl i fyfyriwr sy'n astudio cymysgedd o bynciau STEM a phynciau eraill gael cyfran briodol o'r fwrsariaeth STEM.
16. Cyfrifoldeb sefydliadau fydd asesu cymhwysra myfyrwyr unigol. Dylai'r bwrsariaethau gael eu dyrannu i fyfyrwyr graddau Meistr ôl-radd a addysgir sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra ac sydd wedi cofrestru ar raglenni Meistr cymwys fel a ddiffinnir yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-radd) (Cymru) 2019 (Offeryn Statudol 2019/895), fel y'i diwygiwyd, ac eithrio y dylid gwneud dyfarniadau ni waeth beth fo oedran y myfyrwyr. Wrth ddatblygu dull dosbarthu, bydd angen i sefydliadau sicrhau bod myfyrwyr cymwys ar unrhyw gyrsiau perthnasol a gynigir ganddynt ar sail is-gontractio'n cael eu hystyried o fewn y broses ar gyfer dyrannu ac ymgeisio, a'u bod yn cael yr un wybodaeth am y bwrsariaethau â myfyrwyr ar y campws.

17. Dylai'r asesiad pa un a yw'r cwrs y mae'r myfyriwr yn ei astudio'n gwrs STEM gael ei wneud ar sail categori pynciau academiaidd (ASC) y cwrs. Byddid yn ystyried mai cwrs STEM yw cwrs sydd â phwnc astudio yng nghategoriâu pynciau academiaidd 1, 2, 3, 4 neu 6 (Meddygaeth a deintyddiaeth, Pynciau a phroffesiynau perthynol i iechyd, Gwyddoniaeth, Peirianeg a thechnoleg a Gwyddorau mathemategol, TG a chyfrifiadura). O 2019/20 mae system godio'r Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (HECoS) wedi bod yn cael ei defnyddio i gategoreiddio pynciau astudio ac mae trefn fapio o HECoS i ASC ar gael yn yr arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrrwyr Addysg Uwch ([HESES](#)) yn Atodiad E. Dylai'r bwrsariaeth cyfrwng Cymraeg gael ei dyrannu i'r rhai sy'n astudio 40 o gredydau neu fwy o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.
18. Ein disgwyliad ni yw y bydd sefydliadau AU ac AB yn cyhoeddi gwybodaeth eglur am sut y gall darpar fyfyrwr gael mynediad at y cynlluniau bwrsariaeth ar eu gwefannau ac y dylid cyfeirio'n glir at hyn. Mae'r bwrsariaethau wedi'u bwriadu i gynorthwyo myfyrrwyr cymwys gyda chostau sy'n deillio o'u cwrs astudio ac felly ni ddylid eu hysbysebu dim ond fel cynllun hepgor ffioedd dysgu. Fodd bynnag, pe bai myfyriwr sy'n cael bwrsariaeth yn dewis ei defnyddio yn y ffordd yma, byddai hyn yn cael ei ganiatáu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y gellir dyfarnu'r bwrsariaethau hyn yn ychwanegol at fwrsariaethau sefydliadol eraill a gynigir. Nid yw myfyrrwyr sy'n cael cyllid bwrsariaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru, bwrsariaeth y GIG a'r fwrsariaeth Gofal Cymdeithasol yn gymwys ar gyfer y cynlluniau hyn.
19. Bydd CCAUC yn adolygu gwefannau sefydliadau i sicrhau bod gwybodaeth am y cynlluniau bwrsariaeth ar gael. Dylai sefydliadau hyrwyddo'r bwrsariaethau i annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgymryd ag astudiaethau Meistr ôl-radd a addysgir yng Nghymru.
20. Yn flaenorol rydym wedi dyrannu cyllid yn seiliedig ar y dybiaeth bod myfyrrwyr amser llawn yn cael y cyllid mewn un flwyddyn ac y bydd myfyrrwyr rhan-amser yn cael cyllid dros ddwy flynedd. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2024 bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu a'i ddisodli gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY). Rydym yn disgwyl y bydd ymrwymadau ariannol a wnaed gan CCAUC yn cael eu hanrhydeddu gan y Comisiwn newydd ac felly rydym yn disgwyl y bydd taliadau'r ail flwyddyn mewn perthynas â myfyrrwyr graddau Meistr ôl-radd a addysgir, rhan-amser sy'n dechrau astudio yn 2023/24 yn cael eu hanrhydeddu a'u talu fel a ddisgwylir hefyd.
21. Fel a ddwedwyd yn flaenorol, nid ydym yn ystyried bod angen dyrannu unrhyw gyfran o'r cyllid bwrsariaeth ar gyfer costau gweinyddu'r cynlluniau hyn.

Monitro ac arian heb ei wario

22. Ar ddiwedd pob blwyddyn academiaidd, bydd CCAUC/y CADY yn gofyn am wybodaeth fonitro i ddarparu cadarnhad gan bob sefydliad bod yr holl gyllid wedi cael ei wario yn unol â'r telerau ac amodau a oedd yn sail i'w ddyrannu, h.y. bod y bwrsariaethau wedi cael eu dyfarnu yn ôl y meini prawf cymhwysra a amlinellir

uchod. Byddir y CADY'n gofyn am adroddiadau tebyg mewn blynyddoedd dilynol y bydd y cynllun yn weithredol ynddynt.

23. Byddwn yn adhawlio cyllid os oes angen ar sail nifer wirioneddol y graddau Meistr ôl-radd a addysgir a gwblhawyd yn erbyn y meini prawf cymhwysra uchod ar gyfer y cynlluniau. Byddwn yn cymryd y niferoedd hyn o gofnod myfyrwyr HESA, wedi'u gwirio yn erbyn yr amcangyfrifon wedi'u dilysu a ddefnyddiwyd wrth ddyrannu cyllid. Gan ddefnyddio'r dyraniad y myfyriwr o £2k ar gyfer pynciau STEMM, £1k ar gyfer cyfrwng Cymraeg a £4k ar gyfer myfyriwr sy'n 60 oed neu'n hŷn, pe bai'r sefydliad yn methu â chyflawni'r niferoedd amcangyfrifedig a oedd yn sail i ddarparu'r dyraniad, byddem yn adfer y swm yma y myfyriwr wedi'i luosi â'r diffyg mewn niferoedd.
24. Gall unrhyw ddata a ddefnyddir gennym ni i ddyrannu cyllid gael ei archwilio'n allanol. Mae'r systemau a phrosesau a ddefnyddir i goladu data'n cael eu cynnwys hefyd yng nghwmpas archwiliadau mewnol sefydliadau o systemau a phrosesau data. Mae hyn yn cynnwys gwiriad ar gyfer rhesymoldeb y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu cymhwysra myfyrwyr ar gyfer bwrsariaeth. Ceir rhagor o wybodaeth yng nghylchlythyr CCAUC [W23/02HE: Guidance for Internal Auditors to use in their Annual Internal Audit of HE Data Systems and Processes](#).

Amserlen

25. Mae'r dyraniadau ar gyfer pob sefydliad wedi'u cynnwys yn **Atodiad A**. Rydym yn bwriadu gwneud y taliadau ar gyfer myfyrwyr amser llawn a thaliad y flwyddyn gyntaf ar gyfer myfyrwyr rhan-amser ym mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024. Byddai taliadau'r ail flwyddyn ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn cael eu gwneud gan y Comisiwn newydd ac efallai na fydd y proffil yn cyd-fynd yn union â'r un a ddefnyddiwyd i wneud taliadau gan CCAUC. Os bydd rhaid i ni ddiwygio'r proffil hwn, byddwn yn hysbysu sefydliadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Rhagor o wybodaeth

26. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Nicola Hunt (029 2085 9735; nicola.hunt@hefcw.ac.uk).

Asesu effaith ein polisiau

27. Rydym wedi cynnal asesiad o'r effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb, yr ydym yn ei adolygu'n gyson. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant ni. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau o'r effaith.
28. Mae gan sefydliadau gyfrifoldeb tebyg i asesu effaith eu dull ar gyfer dyrannu'r bwrsariaethau, i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb.

PGT Master's incentivisation bursaries allocation for 2023/24 entrants

Provider*	Allocation paid in: £												
	AY 2023/24						AY 2024/25			Total			
	Full-time			Part-time			Part-time						
	STEMM**	Welsh medium	60+	STEMM**	Welsh medium	60+	STEMM**	Welsh medium	60+	STEMM**	Welsh medium	60+	Total
University of South Wales	352,873	0	4,000	224,323	0	4,000	224,323	0	4,000	801,519	0	12,000	813,519
Aberystwyth University	93,915	8,000	0	32,667	2,000	4,000	32,667	2,000	4,000	159,250	12,000	8,000	179,250
Bangor University	400,107	48,000	4,000	30,244	500	4,000	30,244	500	4,000	460,595	49,000	12,000	521,595
Cardiff University	532,091	6,000	16,000	93,472	0	2,000	93,472	0	2,000	719,035	6,000	20,000	745,035
University of Wales Trinity Saint David	138,286	10,000	8,000	71,901	1,000	12,000	71,901	1,000	12,000	282,087	12,000	32,000	326,087
Swansea University	304,000	11,000	20,000	64,000	0	2,000	64,000	0	2,000	432,000	11,000	24,000	467,000
Cardiff Metropolitan University	286,686	0	4,000	36,195	0	0	36,195	0	0	359,076	0	4,000	363,076
Wrexham University	70,224	0	0	107,053	500	6,000	107,053	500	6,000	284,331	1,000	12,000	297,331
Open University in Wales	0	0	0	56,382	0	22,000	56,382	0	22,000	112,764	0	44,000	156,764
Total	2,178,183	83,000	56,000	716,237	4,000	56,000	716,237	4,000	56,000	3,610,657	91,000	168,000	3,869,657

* FEIs not included in table due to having no eligible provision

** STEMM = Science, Technology, Engineering, Mathematics and Medicine